Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 24ain o Ionawr 2018 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.30yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Rebecca Butcher, y Cyng. Robert Jones, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Owen James, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Lesley Prosser, y Cyng. Christoph Fischer,
Mr Roger Phillips (Clerc Tref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Geraint Price

Cyn y cyfarfod, rhoddodd Mr Simon Jones a Mr William Wilkins, o grŵp Amgylchedd Tywi, gyflwyniad i'r Cyngor ar y llwybrau sy'n cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Ffordd Osgoi.

Materion yn ymwneud â'r Heddlu.
Dywedodd y SCCH Roger Anthony iddi fod yn fis tawel, ac mai dim ond ambell ddigwyddiad yr adroddwyd amdanynt. Roedd arwydd wedi cael ei ddifrodi yn y ganolfan Antîcs. Cafwyd rhai problemau'n ymwneud â thrigolion ym Mharc Lewis. Roedd wedi gosod hysbysiadau ar rai cerbydau ar Stryd Rhosmaen, yn dweud wrthynt am beidio â pharcio yn y mannau hynny. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod cerdyn yn cael ei anfon i'r SCCH Louise Lewis, i'w llongyfarch ar enedigaeth ei merch fach. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Eifion Davies. Roedd pawb o blaid.

Cof 249 / Ion / 18 Datganiadau o Fuddiant. Dim

Cof 250 / Ion / 18 Adroddiad y Cynghorydd Sir
Roedd y Cyng. Edward Thomas wedi dosbarthu ei adroddiad ymlaen llaw. Nodwyd yr adroddiad gan fod y Cyng. Thomas i ffwrdd yn India.

Cof 251 / Ion / 18 Cofnodion Blaenorol
Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Cyngor Llawn, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 13eg o Ragfyr 2017, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir gyda'r diwygiad canlynol:-
Mae angen tynnu enw Desmond Davies oddi ar y rhestr o'r rheini a gynigodd ymddiheuriadau.
Cynigwyd hyn gan y Cyng. Gordon Kilby ac eiliwyd gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir ar nos Fercher y 10fed o Ionawr 2018, a chadarnhawyd eu bod yn

gofnod cywir gyda'r diwygiad canlynol:- *Cof 233 / Ion / 17. Datganodd y Cyng. Colin Jenkins fuddiant yng Nghais Cynllunio E/ 36422 ac nid E/36562.*
Cynigwyd hyn gan y Cyng. Gordon Kilby ac eiliwyd gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliwyd yn y Siambr yn Neuadd y Sir, ar nos Fercher y 10fed o Ionawr 2018, ac argymhellwyd eu bod yn cael eu derbyn.
Cynigwyd hyn gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Owen James. Roedd pawb o blaid.

Cof 252 / Ion / 18 Materion yn deillio o'r cyfarfodydd blaenorol
Ynglŷn â Cof 236 / Ion / 18. Mynegodd y Cyng. Gordon Kilby bryder bod gwaith adeiladu wedi cael ei gwblhau ar yr adeilad hwn cyn y rhoddwyd Caniatâd Cynllunio. Dywedodd y Cyng. Lesley Prosser ei bod wedi cael gwybod, mewn Cwrs Cynllunio yn ddiweddar, bod hyn yn dderbyniol, ar yr amod bod yr ymgeisydd yn ymwybodol, os caiff y cais ei wrthod, yna bydd yn yr holl waith yn gorfod dod i ben. Dywedodd y Clerc ei fod wedi ysgrifennu at y Swyddog Cynllunio, i ofyn am gopi o adroddiad y Swyddog Cadwraeth, yn ogystal ag i holi p'un ai dylid darparu lle parcio ar y safle.

Cof 253 / Ion / 18 Gohebiaeth yn galw am ymateb
Mynegodd y Maer, y Cyng. Eifion Davies, bryderon ei fod wedi cael gwybod bod troseddwr rhyw collfarnedig yn cael ei letya yn yr ardal. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Clerc yn ysgrifennu at Adran Tai CSG, i ofyn am iddynt ddod o hyd i lety mwy addas i'r person hwn, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 254 / Ion / 18 Gohebiaeth er gwybodaeth

1. Un Llais Cymru, ynglŷn â manylion cyrsiau hyfforddi. Nodwyd.
2. Maer Caerfyrddin, gwahoddiad i fynychu'r Orymdaith Gŵyl Ddewi flynyddol ar ddydd Sadwrn y 3ydd o Fawrth.
3. CSG, ynglŷn â Gwobrau Dathlu Diwylliant 2018. Dywedodd y Cyng. Christoph Fischer mai'r Cynghorwyr sy'n ymwneud ag unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus neu grwpiau yn Llandeilo ddylai enwebu'r rhain ar gyfer gwobrau, a thrwy hynny dathlu'r holl sy'n digwydd yn y Dref. Nodwyd.
4. Arolwg Materion Gwledig CSG. Nodwyd.

Cof 255 / Ion / 18 Materion Ariannol

1. **Cyfrifon i'w talu**.

	Net	TAW	Cyfanswm
C&M Bacon	£ 90.00		£ 90.00#
Davies Electrical	£ 3,758.00	£ 751.60	£ 4,509.60*
CGGC (gwein cyflogres Rhagfyr)	£ 20.25	£ 4.05	£ 24.30*
Ar y Gair (cyfieithu)	£ 214.50		£ 214.50*
Ffôn BT	£ 51.92	£ 10.38	£ 62.30*

dd- debyd uniongyrchol # - siec * bacs. Argymhellwyd bod y rhain yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Lesley Prosser. Roedd pawb o blaid.

Cof 256 / Ion / 18 Doedd dim Materion Ariannol Eraill

Cof 257 / Ion / 18 Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd Mr Davies wedi dosbarthu ei adroddiad ymlaen llaw. Adroddodd fod yr heol sy'n arwain o Barc Lewis i Barc Le Conquet mewn cyflwr gwael. Cynigodd y Cyng. Lesley Prosser fod y Clerc yn ysgrifennu at CSG, i ofyn iddynt i atgyweirio'r heol, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Colin Jenkins.
Cynigodd y Cyng. Robert Jones bod caniatâd yn cael ei roddi i'r Swyddog Technegol i gysylltu â Pendragon Fireworks Ltd, i'w bwcio nhw ar gyfer arddangosfa 2018, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Owen James.

Cof 258 / Ion / 18 Y Diweddaraf ar Drosglwyddo Asedau
Dywedodd y Clerc, o ganlyniad i gais y Cyng. Edward Thomas i Sefydliad Corfforedig Elusennol Williams Brown Hill, fod y Cyngor wedi llwyddo i gaffael grant o £20,000 tuag at yr ardal chwarae newydd i blant ym Mharc Le Conquet. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod pleidlais o ddiolch yn cael ei hanfon i'r Cyng. Thomas. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.
Dywedodd y Clerc, o ganlyniad i'w gais am grant Cyfleoedd Chwarae Digonol gan Lywodraeth Cymru, fod y Cyngor wedi derbyn grant o £4,999.99 tuag at ddatblygu Ardal Chwarae Amlddefnydd ym Mharc Le Conquet. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bleidlais o ddiolch i'r Clerc am gyflwyno'r cais am grant, yn enwedig mewn cyfnod mor fyr. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid. Diolchodd Mr Desmond Davies i'r Cyng. Colin Jenkins am ei waith wrth baratoi'r holl ddogfennau tendro sy'n berthynol i'r gwaith a fydd yn cael ei gwblhau ym Mharc Le Conquet. Eiliwyd y cynnig gan y Maer. Roedd pawb o blaid.

Cof 259 / Ion / 18 Doedd dim materion yn ymwneud â Thrawsgludiaeth a Phriffyrdd

Cof 260 / Ion / 18 I Fabwysiadu Polisi Iaith Gymraeg Diwygiedig y Cyngor
Cwblhawyd y gwaith yma gan y Cyng. Robert Jones ac yr oedd yn cynnwys unrhyw newidiadau a diwygiadau o 1993 hyd heddiw. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bleidlais o ddiolch i'r Cyng. Jones am ei holl waith caled wrth gyflwyno'r ddogfen gynhwysfawr hon. Eiliwyd y cynnig gan y Maer. Roedd pawb o blaid.

Cof 261 / Ion / 18 I Ffurfio'r Is-grŵp Tân Gwyllt ar gyfer 2018
Byddai'r Cynghorwyr canlynol yn ffurfio'r Is-grŵp ar gyfer y digwyddiad eleni:-
Y Maer, y Cyng. Lesley Prosser, y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Owen James, y Cyng. Robert Jones a'r Cyng. Geraint Price. Byddai'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ar nos Fawrth y 6ed o Chwefror am 6.30yh.

Cof 262 / Ion / 18 I Ffurfio'r Is-grŵp Goleuadau Nadolig ar gyfer 2018
Cytunwyd byddai'r un Cynghorwyr yn gwasanaethu ar yr Is-grŵp hwn ag yn 2017, sef y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Geraint Price, y Cyng. Dawn Wallace a'r Cyng. Eifion Davies. Byddai'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ar nos Fawrth y 6ed o Chwefror am 6.00yh.

Cof 263 / Ion /18 Doedd dim Adroddiad y Maer

Cof 264 / Ion / 18 Adroddiadau Eraill
1.Adroddiad ar Gylchlythyr y Cyngor. Dosbarthodd y Cyng. Lesley Prosser gopïau o'r cylchlythyr i bob un o'r Cynghorwyr. Cynigodd y Maer bleidlais o ddiolch i'r Cyng. Prosser am ei gwaith caled wrth baratoi'r cylchlythyr cyntaf, a fyddai'n cael ei ddosbarthu i bob cartref yn y Dref. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Rebecca Butcher. Roedd pawb o blaid.

Dywedodd y Cyng. Prosser ei bod wedi derbyn yr amcan brisiau canlynol am argraffu'r cylchlythyr:-

a) £225 am gopïau du a gwyn
b) £280 am gopïau lliw llawn

Oherwydd bod tri chwmni lleol wedi cytuno i noddi rhan o'r gost, cynigodd y Cyng. Christopher Parish ein bod yn dewis y pris am liw llawn. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Rebecca Butcher. Roedd pawb o blaid.

2.Adroddiad ar Ŵyl Dathlu Dewi. Cyflwynodd y Cyng. Robert Jones raglen yr wythnos.

Cof 265 / Ion / 17 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100 B (4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30yh.